# Achub o’r awyr

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â’r holl weithgareddau a all fod yn ofynnol i achub o’r awyr er mwyn casglu pobl sydd wedi’u hanafu ac sy’n effro, neu’n anymwybodol, o goed.

Mae hyn yn cynnwys asesu anghenion y sawl sydd wedi’i anafu a risgiau’r achub, gan ddewis y dulliau achub priodol a chyflawni’r gwaith achub er mwyn dod â’r sawl sydd wedi’i anafu yn ôl i’r ddaear yn ddiogel.

Mae’n cynnwys cael at goed trwy ddringo (gan ddefnyddio ysgolion a chyfarpar dringo) neu Blatfform Gweithio Symudol sy’n Codi (MEWP).

Wrth weithio gyda chyfarpar a pheiriannau, mae’n rhaid eich bod wedi’ch hyfforddi’n briodol, yn gymwys i gyflawni’r gweithgaredd a wneir, a dal ardystiad cyfredol, lle bo angen, yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae’n rhaid i’ch gwaith gydymffurfio â’r holl ddeddfwriaeth, codau ymarfer, safonau’r diwydiant a chanllawiau perthnasol.

Mae’r safon hon yn addas dim ond i’r rhai sydd eisoes yn gymwys wrth gael at goed trwy ddringo neu ddefnyddio MEWP. Mae angen gwybodaeth sylfaenol am gymorth cyntaf, hefyd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal eich iechyd a’ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill bob amser, yn unol â’r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol
2. asesu risgiau achub o’r awyr i benderfynu ar yr angen am achub a’r goblygiadau i’r sawl sydd wedi’i anafu, i chi’ch hun ac i eraill sy’n ymwneud â’r broses, yn unol â chanllawiau presennol y diwydiant
3. asesu anghenion y sawl sydd wedi’i anafu a’i anafiadau i benderfynu ar y dull gweithredu priodol, yn unol â chanllawiau presennol y diwydiant
4. cynllunio achub o’r awyr, gan ddewis dulliau mynediad ac achub sy’n ddiogel, yn briodol i’r sefyllfa ac yn cyd-fynd â’r asesiad risg a chanllawiau presennol y diwydiant
5. cadarnhau bod y cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith i’w gyflawni yn cael ei wisgo drwy’r amser
6. dewis, paratoi, defnyddio, cynnal a chadw a storio’r offer a’r cyfarpar sy’n ofynnol yn ddiogel, yn unol â’r gofynion cyfreithiol perthnasol a chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr
7. cadarnhau bod yr holl gyfarpar wedi cael ei wirio, ei brofi, lle bo angen, a’i fod yn addas at ei ddiben, yn unol â’r gofynion cyfreithiol perthnasol a chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr
8. cadarnhau bod hyfforddiant, profiad ac ardystiad perthnasol yn eu lle i achub o’r awyr, ac adnabod y cyfyngiadau ar eich cymhwysedd eich hun
9. defnyddio dulliau priodol i gael at goed er mwyn achub o’r awyr a dod â’r sawl sydd wedi’i anafu yn ôl i’r ddaear yn unol â chanllawiau presennol y diwydiant
10. rhoi’r cymorth cyntaf perthnasol i’r sawl sydd wedi’i anafu tra bydd yn y goeden a, lle bo angen, parhau pan fydd ar y ddaear
11. cyfathrebu â’r bobl sydd ar y ddaear a’r sawl sydd wedi’i anafu, yn unol â chanllawiau’r diwydiant a gweithdrefnau sefydliadol
12. cofnodi digwyddiadau a rhoi gwybod amdanynt yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol
13. gweithredu fel y bo’n ofynnol pan nodir problemau wrth achub yn yr awyr, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
14. cwblhau a storio’r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i nodi peryglon ac asesu’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r coed a’r ardal gyfagos, a’r anawsterau gweithredol wrth achub o’r awyr
2. sut i asesu sefyllfaoedd ac anghenion y sawl sydd wedi’i anafu a phenderfynu p’un a oes angen y gwasanaethau brys
3. sut i gynllunio gweithrediadau achub o’r awyr a’r elfennau allweddol y mae angen eu cynnwys
4. y dulliau achub sy’n briodol i amrywiaeth o sefyllfaoedd posibl, gan gynnwys gyda phobl sy’n effro neu sy’n anymwybodol
5. yr offer, y cyfarpar a’r cyfarpar diogelu personol (PPE) sy’n ofynnol a sut i baratoi, defnyddio, gwneud gwaith cynnal a chadw’r gweithredwr a storio’r rhain yn ddiogel, yn unol â’r gofynion cyfreithiol perthnasol, cyfarwyddiadau’r gwneuthurwr a gweithdrefnau sefydliadol
6. y gofynion cyfreithiol ar gyfer archwilio pob cyfarpar dringo a gostwng a’r dystiolaeth sy’n ofynnol i ddangos bod hyn wedi cael ei wneud
7. gofynion cyfreithiol, gofynion y diwydiant a gofynion sefydliadol am hyfforddiant, profiad ac ardystiad i wneud y gweithgareddau gwaith gofynnol a phwysigrwydd cydnabod eich cyfyngiadau a pheidio ag ymgymryd â gwaith sydd y tu hwnt i lefel eich cymhwysedd
8. pwysigrwydd defnyddio system amddiffyn personol rhag cwympo wrth ddringo a gweithio mewn coed
9. sut i gyflawni gweithrediadau achub o’r awyr gan ddefnyddio dulliau sy’n cynnwys llinellau’r sawl sydd wedi’i anafu a llinellau achubwyr, a llinell achubwr yn unig, mewn gwahanol sefyllfaoedd
10. y sefyllfaoedd pan nad achub o’r awyr trwy ddringo, o bosibl, fydd y dull mwyaf priodol i’w ddefnyddio
11. sut i achub o’r awyr gan ddefnyddio platfform gweithio symudol sy’n codi (MEWP) a goblygiadau uchafswm y Llwyth Gweithio Diogel (SWL) i’r broses achub
12. sut bydd rhywogaeth a chyflwr coed yn effeithio ar y broses achub
13. egwyddorion sylfaenol cymorth cyntaf a sut gallant gael eu defnyddio, yn ôl eich lefel hyfforddiant chi
14. sut i gychwyn a dal ati i gyfathrebu’n effeithiol yn ystod achub o’r awyr, gyda’r bobl ganlynol: y sawl sydd wedi’i anafu, cydweithwyr, y cyhoedd a’r gwasanaethau brys

15. y problemau a all godi wrth achub o’r awyr a’r camau i’w cymryd
16. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a’ch atebolrwydd
17. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cwblhau a storio dogfennaeth

## Cwmpas/Ystod

**Mae achub o’r awyr trwy ddringo, gan ddefnyddio MEWP neu gan ddefnyddio’r ddau, yn cynnwys y canlynol:**

- achub dioddefwr sy’n effro
- achub dioddefwr sy’n anymwybodol
- achub dioddefwr gerllaw prif gyff y goeden
- achub dioddefwr o’r corun, draw rhag y prif gyff
- achub dioddefwr o bolyn
- achub gweithredwr Platfform Gweithio Symudol sy’n Codi, sydd wedi’i anafu
- sy’n cynnwys defnyddio tîm achub dau berson neu fwy

## Geirfa

Mae **gweithdrefnau sefydliadol** yn cyfeirio at weithdrefnau sydd wedi'u gosod gan y sefydliad sy'n eich cyflogi neu'r sefydliad rydych chi'n gwneud y gwaith ar ei ran (y cleient neu'r cwsmer)

**System Amddiffyn Personol rhag Cwympo** – casgliad o gydrannau sy'n cyfuno, o'u defnyddio'n gywir, i atal cwympo. Mae systemau amddiffyn personol rhag cwympo yn cynnwys prif system a system wrth gefn sy'n gysylltiedig ag angor annibynnol, lle bynnag y bo'n bosibl. Gall y system wrth gefn gael ei hepgor dim ond:

- Pan nad yw'n ymarferol ei chynnal ar gyfer tasg benodol, "ddisymud" a byr symud rhaff yn ei blaen/cyfnewid, gan ailosod y system wrth gefn cyn gynted â phosibl
- Achub rhywun sydd wedi'i anafu, pan fydd cyflymder yn hanfodol

**System Weithio Ddiogel (SSoW)** – dyma ddull gweithio sy'n rhoi mesurau rheoli ar waith sy'n deillio o asesiad risg, er mwyn rheoli peryglon a nodwyd, a rhennir y mesurau hyn yn bedair elfen: person diogel; cyfarpar diogel; lle diogel; ac arfer diogel.

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Ebr 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Ebr 2029 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANTw28 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Coedyddiaeth a choedwigaeth |
| **Cyfres/Set** | Gwaith coed, Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir |
| **Geiriau Allweddol** | awyr; achub; coed; anafu |